



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WeITAG 2017

Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru

Rhagair



Mae'n bleser mawr gennyf lansio Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017. Mae systemau a gwasanaethau trafndiaeth sydd o ansawdd da, yn hygyrch, yn effeithlon ac yn ddibynadwy yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymru sy'n ffyniannus ac yn ddiogel, yn iach ac yn weithgar, yn uchelgeisiol ac yn barod i ddysgu, ac yn unedig ac yn gysylltiedig. Bydd WelTAG 2017 yn helpu i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein buddsoddiadau mewn cynlluniau trafndiaeth sy'n cefnogi'r weledigaeth hon.

Mae WelTAG 2017 yn cyfuno'r arferion gorau ym maes arfarnu trafndiaeth â model pum achos ar gyfer achosion busnes gwell, i sicrhau bod buddsoddiadau mewn trafndiaeth yn cael eu targedu lle maent yn gallu cael yr effaith fwyaf.

Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth



Rydw i yn croesawi penderfyniad y llywodraeth i adolygu'r canllawiau hyn i adlewyrchu'r dyletswyddau statudol newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hwn yn gam sylweddol i'r cyfeiriad cywir.

Yn ogystal â bod yn rhan o ddyletswydd gyfreithiol, mae'r Ddeddf yn darparu cyfle i ddod o hyd i atebion trafndiaeth sy'n cefnogi llesiant pobl a'r blaned.

Gan eu defnyddio ochr yn ochr â'r dogfennau technegol, gan gynnwys ein Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r canllawiau newydd hyn alluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu system drafndiaeth sy'n addas i'r dyfodol trwy roi opsiynau teithio inni sy'n garbon isel neu'n ddi-garbon, lliniaru problemau llygredd aer, sbarduno'r economi werdd, a gwneud pobl, nwyddau a gwasanaethau'n symudol mewn ffyrdd nad ydynt yn costio'r ddaear.

Gall atebion trafndiaeth roi amrediad eang o fuddion os ydynt yn cael eu cynllunio a'u cyflawni mewn ffordd sy'n adlewyrchu ystyriaethau sy'n ehangach na seilwaith neu systemau trafndiaeth yn unig. Mae'r canllawiau hyn yn eich annog chi i ystyried cynigion yng ngoleuni'r buddion maent yn eu rhoi i bob elfen o lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Rhaid inni hefyd ddefnyddio'r dull hwn i gyflawni atebion trafndiaeth a fydd yn mynd â ni i'r ganrif nesaf, ac felly gobeithiaf y byddwch yn gweld hyn fel cyfle i herio ffyrdd traddodiadol o feddwl a dod o hyd i atebion newydd a fydd yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

CYNNWYS

Cyflwyniad.....	1
Egwyddorion WeITAG.....	5
Camau WeITAG.....	7
Pum Achos WeITAG	18
Adroddiadau WeITAG	28
Grŵp adolygu	34
Cyfeiriadau.....	35

BETH YW WELTAG?

WelTAG (Welsh Transport Appraisal Guidance) yw enw'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.

Fframwaith yw WelTAG ar gyfer ystyried newidiadau arfaethedig i'r system drafnidiaeth. Mae'n cynnwys yr arferion gorau ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso ymyriadau trafndiaeth arfaethedig yng Nghymru. Mae wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau y gwneir y cyfraniad mwyaf posibl at lesiant Cymru, fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac i gyflawni gweledigaeth y Ddeddf ar gyfer y Gymru a garem: Cymru fwy ffyniannus, Cymru gydnherth – sy'n cynnal ecosystemau iach, gweithredol ac yn cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru llawn cymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae WelTAG wedi cael ei adolygu i sicrhau y gall yrru'r newid a'r arloesedd cadarnhaol hwn yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r newid i'r ffordd o feddwl sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i sicrhau cyfraniad at y saith nod llesiant cenedlaethol, ac i sefydlu ysbryd y Ddeddf trwy ddulliau megis lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai a'r gwastraff a gynhyrchir, gan ein symud ni tuag at gymdeithas sy'n garbon isel, sy'n defnyddio ynni glân ac sy'n fwy cyfartal, lle mae swyddi sicr sy'n talu'n dda yn cael eu darparu ac mae amgylcheddau cydnherth wedi'u cysylltu'n dda yn cael eu hadeiladu ar gyfer pawb yng Nghymru. Rhaid iddi wella ein bywydau a gwella ein llesiant wrth gefnogi newid moddol.

O dan y Ddeddf, mae bellach gan gyrrff cyhoeddus ddyletswydd i ddefnyddio **datblygiad cynaliadwy** i ffurfio popeth y maent yn ei wneud, sut mae'n cael ei wneud, a sut maent yn adrodd amdano, i ddangos eu bod yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus weithio i wella'r pedair agwedd ar lesiant yng Nghymru: **economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol**. I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, wedi'u cynllunio er mwyn iddynt wneud y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r saith nod llesiant. Rhaid i gyrrff cyhoeddus wedyn gymryd camau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion y maent yn eu pennu.

Mae'n bwysig iawn bod y ffordd y mae fframwaith WelTAG yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ystyried newidiadau arfaethedig i'r system drafnidiaeth yn helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswydd llesiant, trwy adlewyrchu blaenoriaethau ac egwyddorion ehangach i gyfrannu at bob un o'r pedair agwedd ar lesiant. Mae'n hanfodol, felly, bod **egwyddor datblygu cynaliadwy** y Ddeddf yn cael ei

chymhwyso i'r ffordd mae fframwaith WeITAG yn cael ei ddefnyddio ac yn ystod pob cam o'r broses.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus weithredu bellach. Yn hyn o beth, rhaid i bob ymyriad trafndiaeth yng Nghymru ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r un gyfredol.

Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn pan fyddant yn gweithredu datblygiad cynaliadwy. Maent fel a ganlyn:

- Ystyried y **tymor hir** fel nad ydym yn amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd neu waethygu
- Defnyddio dull **cyfannol** i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant
- **Cynnwys** aelodau amrywiol o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw
- Gweithio gydag eraill mewn modd **cydweithiol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy ar y cyd

Mae WeITAG yn sicrhau bod trywydd archwilio clir o wneud penderfyniadau, gan ddarparu'r cyfiawnhad dros hyrwyddo opsiynau trafndiaeth – neu fel arall. Dyma'r mecanwaith ar gyfer rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn iddynt wneud pob penderfyniad ynglŷn â chyllid ar sail rheswm ac mewn ffordd y gellir ei harchwilio.

Yn ogystal ag ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae WeITAG hefyd yn cyfuno egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi a'r Model Pum Achos ar gyfer Achosion Busnes Gwell ag arferion gorau WeITAG ar gyfer arfarnu trafndiaeth.

Ffigur 1: Sut mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi a'r Model Pum Achos ar gyfer Achosion Busnes Gwell yn cyd-fynd â WeITAG

Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi (ROAMEF)	Y Model Pum Achos ar gyfer Achosion Busnes Gwell	Camau WeITAG
(Adborth) Sail Resymegol Amcanion Arfarnu	Achos Strategol Amlinellol	Cam Un
	Achos Busnes Amlinellol	Cam Dau

	Achos Busnes Llawn	Cam Tri
Gweithredu Monitro	Gweithredu	Cam Pedwar
Gwerthuso Adborth	Ar ôl Gweithredu	Cam Pump

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, mae nodiadau canllaw ychwanegol a gwybodaeth ategol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, i ddarparu cymorth ar gyfer defnyddwyr WeITAG.

PWY DDYLAI DDEFNYDDIO WELTAG?

Mae WeITAG wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio gan bobl sy'n meddu ar wybodaeth leol am y materion penodol sydd wedi sbarduno'r awydd i ystyried gwella'r system drafnidiaeth. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn swyddogion llywodraeth leol, gwleidyddion, grwpiau cymunedol lleol neu aelodau o'r cyhoedd. Wrth wneud cynnydd trwy broses WeITAG, mae'n bosibl y bydd defnyddwyr WeITAG yn cael defnyddio gwasanaethau cynllunio a dadansoddi trafnidiaeth arbenigol o gymorth, i'w cynorthwyo i nodi atebion posibl a'u heffeithiau tebygol, yn gadarnhaol ac yn negyddol, os ydynt yn cael eu mabwysiadu.

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu unrhyw ymyriad arfaethedig er mwyn darparu system drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer Cymru. Bydd llawer o'r ymyriadau hyn yn gynlluniau sy'n cynnwys adeiladu seilwaith newydd, megis gorsaf reilffordd, llwybr beiciau neu ffordd newydd. Bydd eraill yn gynlluniau i ddarparu gwasanaeth, megis rhoi cyngor teithio neu ymyriadau eraill sy'n gofyn am wariant refeniw yn hytrach na gwariant cyfalaf. Lluniwyd WeITAG i'w ddefnyddio yn y gwaith o ddatblygu ymyriadau trafnidiaeth cynaliadwy, ond gallai fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer datblygu polisïau a chynlluniau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus feddwl mewn ffordd integredig (wrth hefyd feddwl am yr effaith dymor hir, atal problemau rhag codi neu waethygu, cydweithio ag eraill, a chynnwys dinasyddion). Felly, anogir defnyddwyr WeITAG i ystyried yr holl opsiynau (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymwneud â datblygu seilwaith) i fynd i'r afael â phroblem drafnidiaeth ac i ryngweithio ag eraill a allai ddarparu atebion arloesol.

PRYD DYLAI WELTAG GAEL EI DDEFNYDDIO?

Argymhellir WeITAG fel y man cychwyn pryd bynnag y nodir problem mewn perthynas â'r system drafnidiaeth, neu o fewn maes arall sy'n cael ei effeithio gan y system drafnidiaeth, neu sy'n effeithio arni. Mae'n bosibl y bydd yr atebion yn hollol o fewn y sector trafnidiaeth, neu o fewn meysydd darparu eraill megis iechyd neu addysg – neu'n gorgyffwrdd â nhw. Yn y naill achos neu'r llall, argymhellir defnyddio WeITAG gan ei fod yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried y materion sy'n

berthnasol i'r penderfyniadau sydd eu hangen. Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer rhannu dealltwriaeth o'r materion o amgylch y broblem sy'n cael ei harchwilio, ac o bosibl atebion arloesol ar draws amryw sectorau, nid trafndiaeth yn unig. Bydd hefyd yn annog dull cyfannol, wrth ystyried y problemau a nodi'r ateb, gan gyflawni ar gyfer pob math o ddefnyddiwr y gwasanaeth.

Rhaid i broses WeITAG gael ei chymhwyso i bob prosiect a ariennir yn rhannol neu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Argymhellir ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer asesu'r holl ymyriadau sy'n effeithio ar y system drafndiaeth, ni waeth beth fo'r ffynhonnell gyllido, gan y bydd fframwaith WeITAG yn cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu a llunio'r cynllun arfaethedig.

Yn achos ymyriadau trafndiaeth nad ydynt yn newydd nac yn gynhennus, sydd wedi'u profi'n dda, y mae'n debygol y bydd eu heffaith yn isel, sy'n gofyn am ychydig o adnoddau yn unig, ac sydd â ffiniau prosiect clir, gall fod yn bosibl cyfuno Camau Un, Dau a Thri. Fodd bynnag, anogir i ddefnyddwyr sicrhau nad ydynt yn colli atebion arloesol nad ydynt yn rhai traddodiadol.

SUT MAE'N CYD-FYND Â SYSTEMAU ARFARNU TRAFNDIAETH ERAILL?

Mae WeITAG yn berthnasol i bob ymyriad trafndiaeth, ni waeth beth fo'r dulliau trafndiaeth yr effeithir arnynt. Ar gyfer rhai cynigion trafndiaeth sy'n codi o broses WeITAG, bydd canllawiau sy'n berthnasol i ddulliau penodol o drafndiaeth, megis y broses Llywodraethu Prosiectau Buddsoddi mewn Rheilffyrdd (GRIP) a ddefnyddir gan y diwydiant rheilffyrdd a'r Llawlyfr Cynllunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd (DMRB), ar gyfer cynlluniau priffyrdd, yn dod yn berthnasol.

Dylid defnyddio WeITAG hyd yn oed yn yr achosion hyn. Lluniwyd WeITAG i gyd-fynd â'r prosesau eraill hyn, gan annog dull cyfannol, ac ni fydd yn cynnwys dyblygu ymdrechion. Yn hytrach, gellir defnyddio'r wybodaeth a geir yn ystod proses WeITAG wrth ddatblygu'r prosiectau hyn sydd ar gyfer dulliau penodol o drafndiaeth. Er enghraifft, gallai arfarniad WeITAG nodi opsiwn rheilffordd fel yr ateb a ffeirir, a fyddai yn ei dro yn ddarostyngedig i broses datblygu cynlluniau'r diwydiant rheilffyrdd. Bydd y dystiolaeth y tu ôl i'r penderfyniad hwn a'r data a gesglir trwy arfarniad WeITAG yn berthnasol i'r arfarniad dilynol a gynhelir, gan ddefnyddio canllawiau GRIP y diwydiant rheilffyrdd.

Mae WeITAG hefyd yn cyd-fynd ag anghenion sefydliadau ariannu eraill, yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Bydd dilyn proses WeITAG yn darparu llawer o'r wybodaeth, os nad yr holl wybodaeth, sydd ei hangen ar gyfer ariannu ceisiadau i gyrff ariannu a sefydliadau ariannol eraill.

EGWYDDORION WELTAG

MAE WELTAG YN BROSES SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Dylai tystiolaeth sydd wedi ei chofnodi'n dda fod yn sail i'r holl broses WelTAG.

Bydd disgrifiad o bob ateb posibl a nodir mewn arfarniad WelTAG ar gyfer y mater trafndiaeth o dan sylw yn cynnwys yr allbynnau a ddarparwyd mewn gwirionedd, yr effeithiau a ragwelir ar bobl, yr amgylchedd, yr economi a diwylliant, naratif yn nodi sut y disgwylir i'r ymyriad arfaethedig gyfrannu at ddatrys y broblem o dan sylw, a sut y daethpwyd i'r casgliad hwnnw. Mae'n rhaid i fanylion yr effeithiau a ddisgwylir a'r mecanweithiau y bydd yr opsiynau yn eu defnyddio i ymdrin â'r broblem fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth ar gyflwr cyfredol y system drafnidiaeth, ystyriaeth o'r tueddiadau hirdymor, a'r cyd-destun ehangach.

Caiff y dystiolaeth ddod o ffynonellau data meintiol ac ansoddol, gan gynnwys astudiaethau achos o brofiadau mewn mannau eraill. Dylai defnyddwyr hefyd gyfeirio at yr asesiadau llesiant lleol sydd wedi cael eu cwblhau gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal, gan fydd hyn yn darparu mewnwelediad i'r materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal, ac yn cynorthwyo yn y gwaith o bennu'r opsiynau gorau ar gyfer cyflawni amcanion llesiant lleol. Dylid ymchwilio i'r setiau data hyn cyn comisiynu unrhyw arolygon pwrpasol. Gydag amser, bydd arfarniadau cynllun WelTAG wedi eu cwblhau yn dod yn adnodd gwerthfawr i'w ddefnyddio wrth lunio, arfarnu a blaenoriaethu cynlluniau'r dyfodol.

MAE WELTAG YN BROSES GYMESUR

Dylai lefel y manylion a ddarperir yn adroddiadau WelTAG fod yn gymesur â'r effeithiau sy'n cael eu hystyried. Dylid cyflwyno'r holl effeithiau a materion o bwys a allai gael effaith arwyddocaol ar y gwaith cyflawni, ond dylai lefel y manylder mewn unrhyw waith dadansoddi fod yn gymesur â graddfa ac arwyddocâd yr effaith ac yn ddigon cywir ar gyfer y penderfyniadau y mae angen eu gwneud.

Dylai arfarniad WelTAG amlinellu'r holl amrediad o effeithiau rhagweladwy ar gyfer pob un o'r atebion arfaethedig. Dylai lefel y manylion sydd eu hangen ar gyfer asesu pob un o'r effeithiau hyn fod yn gymesur â graddfa a lefel debygol pob effaith.

Lle bynnag mae dyletswydd gyfreithiol i ystyried effaith benodol, rhaid nodi hyn yn y dogfennau arfarnu. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd a Deddf Cydraddoldeb (gweler y Canllawiau Atodol – y Cyd-destun Deddfwriaethol). Rhaid i'r lefel briodol o waith asesu gael ei gynnal cyn i benderfyniad terfynol i weithredu unrhyw opsiwn penodol gael ei wneud.

MAE WELTAG YN BROSES GYDWEITHIOL

Mae cydweithio a chyfranogi yn bwysig trwy gydol arfarniad WelTAG. Ar ddechrau'r broses, bydd yn helpu i ddeall y sefyllfa gyfredol, gosod amcanion, cynhyrchu rhestr hir o atebion posibl, ac amlinellu'r amrediad o effeithiau tebygol y gwahanol atebion hynny.

Yn ystod y gwaith manylach o gynllunio ac asesu'r opsiynau ar y rhestr fer, bydd ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn cynorthwyo i gasglu tystiolaeth ar effeithiau pob un o'r atebion arfaethedig, a chanlyniadau gwneud dim byd. Mae cynnwys pobl sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau yn y broses yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn aml bydd yn hwyluso'r gwaith o nodi atebion newydd a fyddai o'r budd mwyaf i'r saith nod llesiant.

Yn ystod camau gweithredu a gwerthuso WelTAG, bydd ymgysylltu â phartion sy'n cael eu heffeithio yn cynorthwyo i gasglu tystiolaeth ar wir effeithiau, bwriadol neu fel arall, yr ateb a weithredir, gan gynnwys sut mae'n arwain gwelliannau i lesiant yng Nghymru.

MAE WELTAG YN BROSES GWNEUD PENDERFYNIADAU

Lluniwyd proses WelTAG er mwyn rhannu dealltwriaeth rhwng y rheiny sy'n rhan o'r gwaith o wneud y penderfyniadau a'r rheiny y mae'r penderfyniadau hynny'n effeithio arnynt. Mae hyn yn sail i bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gasglu tystiolaeth o'r angen am ymyriad, gan osod y meini prawf y bydd yr opsiynau arfaethedig yn cael eu hasesu yn eu herbyn, ac effeithiau tebygol pob opsiwn. Gall hefyd helpu i nodi atebion mwy arloesol i'r broblem. Ond yn y pen draw, mae angen gwneud penderfyniadau, a lluniwyd proses WelTAG er mwyn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y rheiny sy'n gwneud y penderfyniadau hyn.

MAE WELTAG YN BROSES DDYSGU

Mae WelTAG yn broses sy'n arwain at ddatblygu atebion gwell. Bydd dilyn proses WelTAG yn arwain at gyd-ddealltwriaeth o'r broblem o dan sylw yn ogystal â'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar yr atebion posibl, a gwerthfawrogiad o'r amrediad llawn o effeithiau (gan gynnwys llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd) yr atebion arfaethedig.

Gydag amser, bydd adroddiadau WelTAG a'u data ategol yn dod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer dysgu am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'r gweithio mewn sefyllfaoedd penodol.

CAMAU WELTAG

CYFLWYNIAD


Mae proses WelTAG yn cwmpasu cylch bywyd cyfan ymyriad arfaethedig yn y system drafnidiaeth, o adeg asesu'r broblem, ystyried atebion posibl a nodweddion y cynllun, hyd at weithredu a gwerthuso'r prosiect.

Bydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ystod pob cam yn sicrhau nad yw amser, ymdrech ac arian yn cael eu defnyddio wrth ystyried opsiynau na fyddent yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at eu hamcanion llesiant ac yn eu tro at y saith nod llesiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod yr opsiwn a ffefrir yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd hefyd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'r ymyriad gyflawni eu dyletswydd llesiant.

Mae pum cam WelTAG; mae'r tri cham cyntaf yn arwain at ddewis yr ymyriad arfaethedig. Mae'r ddau gam terfynol yn cynnwys y cyfnod yn ystod ac ar ôl y gwaith o weithredu'r ymyriad, gan nodi'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd a'r hyn sy'n cael ei gyflawni.

Ar gyfer astudiaethau WelTAG nad ydynt yn newydd nac yn gynhennus, hynny yw, maent yn risg isel, yn arferol, wedi'u profi'n dda, yn gofyn am ychydig o adnoddau yn unig, yn cael effeithiau isel, ac â ffiniau prosiect clir, mae'n bosibl cyfuno Camau Un, Dau a Thri.

Mae pum cam proses WelTAG fel a ganlyn:



DIBEN CAM UN

Diben Cam Un yw deall y materion sy'n peri pryder, archwilio'r cyd-destun, a chyflwyno rhestr eang o atebion posibl, sy'n ddigonol i allu penderfynu a oes unrhyw atebion o fewn y sector trafndiaeth y mae'n werth eu dilyn a dewis rhestr fer o atebion i'w hystyried yn fwy manwl. Un o nodweddion allweddol y cam hwn yw cymhwyso'r pum ffordd o weithio i'r gwaith o ystyried atebion posibl, er mwyn sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried, a deall pa mor dda maent yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r saith nod.

Mae'n darparu'r cyfle i ystyried a oes unrhyw atebion nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth neu atebion trawstoriadol. Os nodir y rhain, yna dylai'r bobl sydd â sgiliau a phrofiad yn y meysydd hyn gael eu cynnwys ym mhroses WelTAG.

Dylid gwneud penderfyniadau ynglŷn â thrafnidiaeth gyda'r bwriad o sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol, cydymffurfio â gofynion ac egwyddorion eraill megis yr angen i leihau allyriadau carbon, hyrwyddo teithio llesol, a hyrwyddo cydraddoldeb a pharchu'r confensiwn ar hawliau dynol. Wrth wneud hyn, mae buddion i'w cael trwy ymgysylltu'n gynnar â'r rheiny y mae ganddynt brofiad perthnasol y tu allan i'r sector trafndiaeth.

CYNNWYS CAM UN

Disgrifiad eglur yn seiliedig ar dystiolaeth o'r mater y mae angen mynd i'r afael ag ef a'r problemau sy'n ymddangos nawr neu a fydd yn ymddangos yn y dyfodol os na chymerir camau.

Mae angen dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y broblem, gan gynnwys edrych ar yr achos sylfaenol, gan y bydd hyn yn cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu atebion arloesol posibl i gyflawni buddion lluosog. Dylai'r dadansoddiad hwn fod yn seiliedig ar naratif, wedi'i ategu gan dystiolaeth, ac yn cyflwyno'r mecanwaith a fydd yn nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at y mater o dan sylw. Dylid hefyd archwilio cysylltiadau rhwng y sector trafndiaeth a sectorau eraill.

Dylai'r amcanion ar gyfer unrhyw ateb arfaethedig gael eu nodi'n glir. Dyma'r amcanion y bydd yr atebion arfaethedig yn cael eu barnu yn eu herbyn. Bydd yr amcanion hyn yn dod o:

- amcanion cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru megis yr amcanion a bennwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan

gynnwys yr angen i feddwl mewn modd hirdymor ac arloesol er mwyn darparu manteision lluosog

- amcanion ar gyfer y system drafnidiaeth fel y'u hamlinellir yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru
- amcanion ac iddynt ragor o ffocws, e.e. amcanion llesiant lleol a bennir gan gyrff cyhoeddus sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r ateb a, lle bo hynny'n berthnasol, amcanion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, neu amcanion wedi'u datblygu ar gyfer y mater penodol o dan sylw

Rhestr hir o opsiynau a allai fynd i'r afael â'r broblem a nodwyd, ac argymhellion ynghylch yr opsiynau y dylid mynd â nhw yn eu blaen i Gam Dau yn seiliedig ar:

- eu gallu i atal neu ddatrys y broblem nawr ac yn y dyfodol
- eu gallu i gyflawni'r amcanion a bennwyd a gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru
- eu heffeithiau tymor byr a hwy ar gyflawni buddion lluosog ar draws y pedair agwedd ar lesiant a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r saith nod llesiant
- y gallu i'w cyflawni
- eu cadernid mewn amgylchiadau ansicr a'u potensial i yrru newid parhaol

Dylid darparu esboniad clir o'r rhesymau dros yr argymhellion hyn. Bydd hyn yn cynorthwyo'r grŵp adolygu i benderfynu ar y rhestr fer o opsiynau.

Dylid cyflwyno argymhellion ar y dulliau i'w defnyddio i wella'r sail dystiolaeth yng ngwaith Cam Dau yn yr achos cyflawni. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd lle mae angen rhagor o dystiolaeth a'r ffyrdd arfaethedig o gasglu'r dystiolaeth hon. Gallai hyn gynnwys rhagor o ddadansoddi data presennol, tystiolaeth o astudiaethau achos mewn mannau eraill, casglu data sylfaenol, a defnyddio modelau cyfrifiadurol.

Gan ddilyn egwyddor arfarniad cymesur, nid oes angen i'r arfarniad fod yn gynhwysfawr yn ystod y cam hwn, ond dylai nodi'r effeithiau a'r materion allweddol a fyddai'n effeithio ar y dewis o opsiynau i'w hystyried ymhellach yng Ngham Dau.

CAMAU GWEITHREDU AR DDIWEDD CAM UN

- Penderfynu a oes unrhyw opsiynau trafndiaeth, neu atebion eraill, a all fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.
- Dewis rhestr fer o opsiynau i fynd â nhw yn eu blaen i Gam Dau, yn seiliedig ar eu gallu i ddatrys y broblem, sut maent yn cyd-fynd ag amcanion lleol, rhanbarthol a/neu ryngwladol, eu heffeithiau ar draws yr holl agweddau ar lesiant, y gallu i'w cyflawni, a'u cadernid mewn amgylchiadau ansicr.

- Cytuno ar yr effeithiau, ar draws yr holl agweddau ar lesiant, sydd i'w hystyried yn ystod Cam Dau, gan gynnwys y dulliau i'w defnyddio i ddarparu tystiolaeth ychwanegol pan fo angen.
- Nodi unrhyw ofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i Gam Dau ac y mae angen eu bodloni yn ystod y cam hwn. (Gweler y Canllawiau Atodol – y Cyd-destun Deddfwriaethol.)
- Dogfennu penderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Un a'r sail ar gyfer y penderfyniadau hyn.

WELTAG CAM DAU

DIBEN CAM DAU

Diben Cam Dau yw archwilio'n fanylach y rhestr fer o opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem o dan sylw.

Cam Dau yw'r adeg y dylid archwilio'n fanylach y mecanweithiau y bydd yr opsiwn arfaethedig yn eu defnyddio i arwain at y canlyniadau a ddymunir. Mae hyn yn galluogi'r tîm arfarnu i ystyried sut y bydd yr ateb arfaethedig yn arwain at y canlyniadau a ddymunir, gan sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at yr amcanion a'r nodau llesiant, a defnyddio'r ddealltwriaeth hon i fireinio cynllun yr opsiynau a nodi unrhyw ddibyniaethau a chyfyngiadau allweddol.

Mae adroddiad Cam Dau yn amlinellu, ar gyfer y Grŵp Adolygu, sut bydd pob un o'r opsiynau arfaethedig yn bodloni'r amcanion a nodwyd, yr effeithiau a ragwelir o bob opsiwn, a'r modd y bydd cyd-destun y cynllun yn effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion. Dylai hefyd ystyried pa mor gadarn yw'r opsiynau arfaethedig i fodloni eu hamcanion gan ddefnyddio profion sensitifrwydd a dadansoddi senarios, gan gynnwys ystyried senarios y dyfodol. Dylid cyflwyno risgiau a dibyniaethau allweddol.

Mae Cam Dau yn darparu'r dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn i'r Grŵp Adolygu ddewis opsiwn a ffefrir i fynd ag ef yn ei flaen i Gam Tri. Felly, mae angen i'r adroddiad Cam Dau nodi'n eglur y materion a fydd yn berthnasol i ddewis yr opsiwn a ffefrir. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth o'r effeithiau ar grwpiau penodol o bobl neu ardaloedd, dibyniaethau a risgiau allweddol a allai effeithio ar y gallu i gyflawni'r canlyniadau a ragwelir, a dadansoddiad o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, a'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant lleol, rhanbarthol a/neu ryngwladol.

CYNNWYS CAM DAU

Mae Cam Dau yn adolygu unrhyw newidiadau perthnasol a allai fod wedi digwydd yn y system drafndiaeth a'i chyd-destun ehangach ers cwblhau Cam Un.

Mae'n disgrifio pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer a sut byddai pob un yn bodloni'r amcanion a amlinellir yng Ngham Un. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r mecanweithiau sy'n cael eu defnyddio rhwng cyflawni'r opsiwn a gwireddu'r effeithiau a ragwelir.

Cyflwynir asesiad Pum Achos ar gyfer pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer, gyda chyflwyniad ar wahân ar gyfer yr achos strategol, trafndiaeth, rheoli, ariannol a masnachol dros bob opsiwn, a'r cyfraniad at y nodau llesiant. Dylai'r achos trafndiaeth grynhoi effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd allweddol pob ateb sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a wneir ar ddiwedd Cam Dau. Dylai hefyd nodi'r opsiynau sy'n cyflawni'r gwelliant ehangaf ar draws y pedair agwedd ar lesiant. Rydym yn disgwyl yr opsiynau hynny sy'n cael ei cymeryd ymlaen i fod y rhai sydd yn cynnig y cyfraniad mwyaf i llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Rhaid rhoi'r dystiolaeth ategol a manylion y methodolegau arfarnu a ddefnyddir i archwilio'r effeithiau hyn yn Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG.

CAMAU GWEITHREDU AR DDIWEDD CAM DAU

- Penderfynu a oes unrhyw opsiynau trafndiaeth a allai fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r nodau a'r amcanion llesiant, ac y gellir eu cyflawni o fewn cyfyngiadau technegol ac ariannol.
- Dewis opsiwn a ffefrir i fynd ag ef yn ei flaen i Gam Tri.
- Cytuno ar y dulliau i'w defnyddio i ddarparu tystiolaeth ychwanegol lle bo angen ar gyfer Cam Tri.
- Nodi unrhyw ofynion deddfwriaethol y mae angen eu bodloni yn ystod Cam Tri.
- Dogfennu penderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Dau a'r sail ar gyfer y penderfyniadau hyn.

DIBEN CAM TRI

Diben Cam Tri yw gwneud asesiad llawn a manwl o'r opsiwn a ffefrir i lywio penderfyniadau ynglŷn â ph'un a ddylid bwrw ymlaen i'w weithredu neu beidio.

Dylai'r gwaith cynllunio ac arfarnu manwl gael ei ddefnyddio i fireinio'r cynllun ac i lywio unrhyw fesurau ychwanegol sydd eu hangen i wireddu manteision y cynnig yn llawnach, ac i geisio sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant, wrth helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol.

Bydd cwblhau Cam Tri yn darparu llawer o'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer ceisiadau i sefydliadau ariannu ac unrhyw weithdrefnau arfarnu ar gyfer dull penodol o drafnidiaeth.

Bydd gwybod am fanylion llawn y cynllun, manylion yr effeithiau a ragwelir, a'r naratif ar sut bydd yr ymyriad arfaethedig yn bodloni'r amcanion a'u heffeithiau tebygol yn gymorth wrth gynllunio'r gwaith monitro a gwerthuso a fydd yn cael ei wneud yng Nghamau Pedwar a Phump.

Mewn llawer o achosion, bydd Cam Tri wedi cael ei baratoi gan ddefnyddio cost amcangyfrifedig. Ar ôl yr ymarfer caffael, bydd pris terfynol a set o agweddau cyflawnadwy diffiniedig ar gael. Dylai adroddiad Cam Tri gael ei ddiweddarau i adlewyrchu pris terfynol, cwmpas ac agweddau cyflawnadwy'r prosiect. Dylid defnyddio'r ddogfen hon yn y gwaith gwerthuso a gynhelir yng Nghamau Pedwar a Phump.

Dylid ysgrifennu'r cynllun monitro a gwerthuso yn ystod Cam Tri a'i gyflwyno yn yr achos rheolaeth. Dylai nodi'r gwaith casglu data y mae angen ei wneud cyn gweithredu'r prosiect. Mae'n bosibl y bydd tystiolaeth berthnasol yn yr asesiad llesiant lleol. Bydd hefyd yn caniatáu pennu'r gyllideb sydd ei hangen i dalu am y gost o gynnal y gwaith monitro a gwerthuso. Dylid cynnwys hyn yng nghostau'r ymyriad a gwneud trefniadau i sicrhau y bydd y cyllid hwn ar gael pan fo angen ar gyfer y gwerthusiad byrdymor a hirdymor ar ôl agor.

CYNNWYS CAM TRI

Dylid cwblhau pob dimensiwn o'r Pum Achos, gyda lefel o fanylder sy'n gymesur â graddfa a/neu arwyddocâd yr effeithiau a'r risgiau cysylltiedig. Mae'n rhaid cynnwys materion sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r opsiynau, gwireddu'r manteision a ragwelir, a liniaru effeithiau andwyol.

CAMAU GWEITHREDU AR DDIWEDD CAM TRI

- Penderfynu a oes opsiwn trafndiaeth yn bodoli a all fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, gwneud cyfraniad cadarnhaol at y nodau a'r amcanion llesiant, ac y gellir ei gyflawni o fewn cyfyngiadau technegol ac ariannol.
- Dewis yr opsiwn a ffefrir ar gyfer caffael. Fel arall, penderfynu peidio â pharhau a'r opsiwn a ffefrir a dewis opsiwn arall a nodwyd yng Ngham Dau i fynd ag ef yn ei flaen i Gam Tri.
- Cytuno ar y cynllun monitro a gwerthuso a disgrifio'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen yn ystod ac ar ôl gweithredu. Caffael unrhyw astudiaethau sydd eu hangen ymlaen llaw. Gwneud trefniadau ar gyfer cyllido'r gwaith monitro a gwerthuso yn y dyfodol.
- Dogfennu penderfyniadau Grŵp Adolygu Cam Tri a'r sail ar gyfer y penderfyniadau hyn.

WELTAG CAM PEDWAR

DIBEN CAM PEDWAR

Diben Camau Pedwar a Phump yw cofnodi'r hyn sy'n digwydd er mwyn dysgu gwersi. Mae'n bosibl y byddant yn arwain at newidiadau i'r cynllun cyfredol ac yn ffurfio tystiolaeth werthfawr i'w defnyddio mewn arfarniadau WelTAG yn y dyfodol.

Diben Cam Pedwar yw cofnodi'r hyn sy'n cael ei gyflawni mewn gwirionedd, y cyd-destun ehangach ar adeg cyflawni'r cynllun, a chofnodi'r effeithiau sy'n digwydd mewn gwirionedd yn ystod y broses weithredu.

Mae hefyd yn caniatáu am rybudd ar unwaith os oes unrhyw effeithiau andwyol anfwriadol yn ystod y broses weithredu ac yn gallu cynorthwyo i wireddu unrhyw fanteision. Mae hefyd yn gweithredu fel cofnod o'r hyn sy'n cael ei gyflawni mewn gwirionedd, sy'n ofynnol yng ngwaith gwerthuso Cam Pump.

Dylid cadw cofnodion o'r effeithiau yn ystod y broses weithredu gan y bydd angen y rhain er mwyn gwerthuso'r broses o weithredu a'r canlyniadau. Dylid cofnodi digwyddiadau allanol a allai effeithio ar y gwerthusiad wrth iddynt ddigwydd, megis tywydd garw, newidiadau i ddeddfwriaeth, y canlyniadau mewn perthynas â'r risgiau allweddol a nodwyd yng Ngham Tri, ac unrhyw newidiadau i'r cynllun a wnaed yn ystod y gweithredu.

CYNNWYS CAM PEDWAR

Dylai'r gwerthuso yng Nghamau Pedwar a Phump ystyried y meysydd a drafodwyd ym mhob un o'r achosion yng Ngham Tri. Mae hyn yn golygu y bydd angen iddo ystyried y broses o gyflawni'r cynllun ac effeithiau'r cynllun ei hun.

Dylai strwythur adroddiad Cam Pedwar ddilyn y Pum Achos. Dylai fod pennod gryno ar ddechrau'r adroddiad sy'n dangos y gwerthusiad gan ddefnyddio map rhesymeg. Dylai fod gan fap rhesymeg o leiaf pedair elfen fel y dangosir yn yr enghraifft hon ar gyfer lôn bysiau newydd:

Cyd-destun: nifer y teithwyr bws, beicwyr a theithiau car ar hyd y coridor cyn gweithredu'r cynllun; newidiadau i brisiau tocynnau bws/trên, prisiau tanwydd a thalu am barcio ceir (yng nghanol y dref).

Mewnbynnau: cost darparu'r lonydd bysiau, e.e. llafur ac offer.

Allbynnau: lleoliad y lôn bysiau, hyd y lôn bysiau.

Canlyniadau: newid gwirioneddol i amserau teithiau bws, unrhyw newid i amserau teithiau car, newid yn nifer a chanran y teithiau a wneir mewn bws, ar feic ac mewn car ar hyd y coridor, y lleihad mewn allyriadau carbon a lefelau o lygredd – a, lle bo modd, mesur manteision ehangach i iechyd, economi carbon isel, cydraddoldeb mynediad i opsiynau trafnidiaeth, diogelwch ac ati, i sicrhau bod llesiant ehangach yn cael ei wella.

Crynodeb o unrhyw ddigwyddiadau perthnasol a fu yn ystod y broses weithredu ac unrhyw newidiadau yn y cyd-destun, fel newidiadau i brisiau tanwydd a thywydd garw, a fydd yn cynorthwyo i werthuso'r broses weithredu a'r cynllun ei hun yn adroddiad Cam Pump.

Bydd yr adroddiad wedyn yn dilyn pob un o'r pum achos ac yn cyflwyno cymhariaeth o'r digwyddiadau alldro â'r rhai hynny a ragwelwyd yn adroddiad Cam Tri. Dylai'r adroddiad ystyried hefyd effaith unrhyw newidiadau rhwng y cyd-destun a ragwelwyd ac effeithiau'r cynllun a'r cyd-destun a'r effeithiau gwirioneddol pan weithredwyd y cynllun.

CAMAU GWEITHREDU AR DDIWEDD CAM PEDWAR

Dylid cwblhau'r astudiaethau 'ymlaen llaw' mewn da bryd er mwyn cofnodi'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn gweithredu'r cynllun. Oni bai bod cryn amser wedi mynd heibio ers cwblhau Cam Tri, dylai'r wybodaeth hon fod wedi'i chasglu eisoes i'w defnyddio yng Ngham Tri a bydd ar gael yn Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG a'r storfa data sy'n cyd-fynd ag ef.

Os yw'r effeithiau a welwyd yn wahanol i'r effeithiau a ragwelwyd, yna dylid llunio adroddiad interim Cam Pedwar i gofnodi hyn, ac i gynnig ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar

unrhyw fuddion nas bwriadwyd neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol nas bwriadwyd. Bydd adroddiad terfynol Cam Pedwar yn cofnodi gwerthusiad ar unwaith ar ôl agor, gan gofnodi'r allbynnau gwirioneddol a ddarparwyd a'r effeithiau cychwynnol. Dylai hyn gynnwys chwe mis cyntaf gweithrediad y cynllun a dylid ei gwblhau o fewn 12 mis i agor y cynllun neu weithredu'r ymyriad.

WELTAG CAM PUMP

DIBEN CAM PUMP

Prif ddiben Cam Pump yw cofnodi'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, cymharu hyn â'r effeithiau a ragwelwyd, dysgu gwersi, a rhannu'r hyn a ddysgwyd â'r rheiny sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu ymyriadau yn y system drafnidiaeth yn y dyfodol.

Mae monitro a gwerthuso'r ymyriad yn werthfawr ar gyfer:

- atebolrwydd wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus
- dysgu am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio – gall profiad defnyddwyr fwydo i hyn
- dangos cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion a'r nodau llesiant

Os bydd problemau annisgwyl yn codi, gellir defnyddio gwaith Cam Pump i lywio mesurau i liniaru effeithiau andwyol nas rhagwelwyd neu i ddatblygu buddion nas rhagwelwyd.

CYNNWYS CAM PUMP

Bydd adroddiad Cam Pump yn gofnod parhaol o'r hyn a gyflawnwyd ac yn adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd. Mae'n cynnwys y broses o gyflawni'r cynllun ac effeithiau'r cynllun ei hun.

Dylai fod pennod gryno ar ddechrau'r adroddiad sy'n nodi canfyddiadau allweddol y gwaith gwerthuso a'r gwersi a ddysgwyd. Dylid crynhoi gwerthusiad tymor hwy'r prosiect gan ddefnyddio map rhesymeg.

Dylid cyflwyno crynodeb eglur o unrhyw ddigwyddiadau perthnasol a fu yn ystod ac ar ôl y broses weithredu ac unrhyw newidiadau yn y cyd-destun, fel newidiadau i brisiau tanwydd, defnydd tir neu batrymau teithio, a fydd yn cynorthwyo i werthuso'r broses weithredu a dylid cyflwyno'r cynllun yn glir. Dylid egluro sut y gwnaeth y rhain effeithio ar y cynllun, sut y gwiredwyd y buddion a ragwelwyd, ac unrhyw effeithiau andwyol.

Bydd yr adroddiad wedyn yn dilyn pob un o'r pum achos ac yn cyflwyno cymhariaeth fanylach o'r digwyddiadau alldro â'r rheiny a ragwelwyd yn adroddiad Cam Tri ar gyfer pob un o'r pum achos.

CAMAU GWEITHREDU AR DDIWEDD CAM PUMP

Cynhyrchu cofnod o'r hyn a gyflawnwyd, gwerthusiad o'r broses o gyflawni'r opsiwn, cofnod o'r effeithiau gwirioneddol o'u cymharu â'r effeithiau a ragwelwyd, ac asesiad o'r graddau y gwnaeth fodloni'r amcanion gwreiddiol.

Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd i'w ddefnyddio gan eraill mewn arfarniadau WeITAG yn y dyfodol, gan felly gwblhau'r cylch ROAMEF.

Crynodeb o broses WeITAG

CAM UN

Nodi mater(ion) mae angen mynd i'r afael ag ef/nhw

Sefydlu amcanion CAMPUS

Datblygu rhestr hir o atebion posibl, gan gynnwys ymyriadau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth

Asesu opsiynau rhestr hir yn erbyn amcanion

CAM GWEITHREDU:

Dewis rhestr fer o opsiynau i fynd â nhw yn eu blaen i'r cam nesaf
Cytuno ar fethodoleg ar gyfer gwaith asesu effeithiau yn ystod y cam nesaf

CAM DAU

Nodi effeithiolrwydd pob opsiwn ar y rhestr fer o ran bodloni amcanion y cynllun

Nodi effeithiau tebygol pob opsiwn a'i gyfraniad at y nodau llesiant

CAM GWEITHREDU:

Dewis opsiwn a ffeirir i fynd ag ef yn ei flaen i'r cam nesaf
Cytuno ar fethodoleg ar gyfer unrhyw waith asesu effeithiau ychwanegol sydd ei angen yn y cam nesaf

CAM TRI

Cwblhau pob un o'r pum achos ar gyfer yr opsiwn a ffeirir

CAM GWEITHREDU:

Penderfynu gweithredu neu beidio â gweithredu'r opsiwn a ffeirir / mynd ag opsiwn arall i Gam Tri

CAM PEDWAR

Cyflawni'r opsiwn a ffeirir

Cofnodi manylion cyd-destun y gwaith cyflawni

Monitro'r broses gyflawni

Monitro effeithiau yn ystod y gwaith cyflawni

CAM GWEITHREDU:

Adroddiad monitro a gwerthuso byrdymor

CAM PUMP

Cofnodi manylion cyd-destun y prosiect a'r gwaith o'i gyflawni

Monitro effeithiau'r ateb a fabwysiadwyd

Gwerthuso'r broses o gyflawni'r ateb a fabwysiadwyd

Gwerthuso'r canlyniadau gwirioneddol

CAM GWEITHREDU:

Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu ac arfarnu cynlluniau'r dyfodol

PUM ACHOS WELTAG

Rhaid defnyddio strwythur y Model Pum Achos a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi i gyflwyno adroddiad pob cam.

Mae'r Pum Achos, fel y'u cynhwysir i arfarniadau trafndiaeth, yn cael eu disgrifio yn fanylach ym mhennod nesaf y canllawiau hyn. I grynhoi, mae'r Pum Achos fel a ganlyn:

- Achos **strategol**: yr achos dros newid, sut mae'n cyd-fynd â pholisïau ac amcanion llesiant
- Achos **trafnidiaeth**: a yw'r cynnig yn cynnig gwerth da am arian i'r cyhoedd ac yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant?
- Achos **ariannol**: a yw'r gwariant arfaethedig yn fforddiadwy?
- Achos **masnachol**: sut y gellir caffael y cynllun, a yw'n hyfyw?
- Achos **rheolaeth**: a yw'r cynllun yn gyflawnadwy? A ellir ei gwblhau?

Bydd maint y manylion sydd ar gael ar gyfer pob un o'r Pum Achos yn amrywio rhwng yr achosion yn ystod camau cynnar proses WelTAG ond, erbyn diwedd Cam Tri, dylai pob un o'r Pum Achos fod wedi'i gwblhau.

Yn ystod Cam Un, bydd yr achos strategol bron wedi'i ddatblygu'n llawn gan fod hwn yn amlinellu'r angen am newid. Bydd yr achos trafndiaeth yn darparu asesiad cychwynnol o'r effeithiau a ragwelir ar gyfer pob un o restr hir o opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem o dan sylw. Yn ystod y cam hwn, bydd yr asesiad yn bennaf yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd. Bydd natur yr achosion cyflawni, masnachol ac ariannol yn rhagarweiniol, ond rhaid iddynt ystyried yr holl faterion allweddol a fyddai'n effeithio ar y dewis o opsiynau i'w hymchwilio ymhellach.

Erbyn diwedd Cam Dau, mae'n rhaid i'r achosion strategol a thrafnidiaeth fod bron iawn wedi'u cwblhau a rhaid darparu rhagor o wybodaeth am yr achosion cyflawni, masnachol ac ariannol ar gyfer yr opsiynau ar y rhestr fer.

Erbyn diwedd Cam Tri, mae angen i bob un o'r Pum Achos fod wedi'i gwblhau.

Ar gyfer Camau Pedwar a Phump, dylai'r gwaith arfarnu gymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r effeithiau a ragwelwyd a chyflwyno adroddiad ar yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn y meysydd sy'n cael eu cwmpasu gan bob un o'r Pum Achos. Bydd monitro canlyniadau yn ystod proses weithredu'r cynllun yng Ngham Pedwar yn caniatáu i addasiadau gael eu gwneud, os oes angen, i wireddu buddion yr ymyriad a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol nas rhagwelwyd. Mae'r gwerthuso tymor hwy a ddarperir yn ystod Cam Pump yn cwmpasu'r broses o

gyflawni'r cynllun a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae hyn yn gwneud WelTAG yn broses ddysgu a bydd arfarniadau WelTAG yn y dyfodol yn elwa o ganlyniad i rannu'r profiadau a gafwyd mewn mannau eraill.

ACHOS STRATEGOL

A oes ei angen arnom?

Mae'r achos strategol yn dweud wrthym a oes angen newid arnom a pham. Mae'n cyflwyno disgrifiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol, yn disgrifio'r sefyllfa debygol yn y dyfodol os na fydd camau gweithredu'n cael eu cymryd, ac yn cyflwyno'r rhesymau dros fynnu ymyriad. Mae'n cynnwys manylion y cyd-destun ehangach ar gyfer yr ymyriad arfaethedig, gan gynnwys tueddiadau allweddol mewn meysydd nad ydynt yn feysydd trafndiaeth megis nifer y swyddi sydd ar gael a'r amgylchedd. Mae'n hanfodol bod tueddiadau, effeithiau a goblygiadau hirdymor yn cael eu hystyried fel bod penderfyniadau a wneir heddiw'n cael effaith gadarnhaol ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae angen dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y broblem, gan y bydd hyn yn helpu i ddatblygu atebion posibl. Dylai'r dadansoddiad hwn fod yn seiliedig ar naratif ac wedi'i ategu gan dystiolaeth, a dylai gyflwyno'r mecanwaith a ddefnyddir gan y ffactorau a nodwyd i gyfrannu at y mater dan sylw. Dylid archwilio'r cysylltiadau rhwng y sector trafndiaeth a sectorau eraill hefyd. Dylid ystyried atebion ataliol hefyd fel bod y broblem yn lleihau dros amser. Dylid ceisio atebion arloesol hefyd.

Mae'r achos strategol yn sefydlu amcanion **Cyraeddadwy**, **Amserol**, **Mesuradwy**, **Penodol**, **Uchelgeisiol** a **Synhwyrol** (CAMPUS) sydd wedi'u sefydlu ar gyfer y broblem benodol dan sylw yn yr arfarniad WelTAG. Dyma'r amcanion y bydd yr atebion arfaethedig yn cael eu barnu ar eu sail. Bydd yr amcanion hyn yn dod o:

- amcanion cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru megis y rheini sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- amcanion ar gyfer y system drafndiaeth fel yr amlinellir yn Strategaeth Trafndiaeth Cymru
- amcanion mwy penodol, e.e. amcanion llesiant lleol, neu amcanion a ddatblygwyd ar gyfer y broblem benodol dan sylw

Mae angen i'r achos strategol nodi, yn gryno, y naratif o ran sut y bwriedir i bob un o'r atebion arfaethedig newid y sefyllfa. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r mecanweithiau a ddefnyddir i weithredu'r ateb a fydd yn arwain at y newid dymunol.

Mae'r achos strategol yn disgrifio'r cyfyngiadau allweddol a fydd yn effeithio ar gynllun a gweithrediad yr atebion i'r her a nodwyd. Mae angen esbonio hefyd unrhyw ddibyniaethau allweddol, gyda mesurau trafndiaeth eraill, neu newidiadau mewn sectorau a meysydd eraill, a allai effeithio ar lwyddiant neu fethiant yr ateb o ran cyflawni'r canlyniad disgwylidig. Dylid nodi unrhyw effeithiau andwyol ar grwpiau penodol o bobl neu leoliadau, yn ogystal ag unrhyw risgiau mawr a allai effeithio ar y gallu i gyflawni'r cynllun, gwireddu'r buddion disgwylidig, neu liniaru effeithiau andwyol. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i ddatrys gwrthdaro posibl rhwng yr effeithiau. Dylid defnyddio'r pum ffordd o weithio i ystyried a dangos y rhain.

Rhestr wirio'r achos strategol

Dylid cwblhau'r adrannau cwmpas, yr achos dros newid, ac amcanion yng Ngham Un, a dylid eu diweddarau a'u dilysu yng Nghamau Dau a Thri.

Cwmpas

- Disgrifiad o'r maes astudiaeth, beth sydd o fewn cwmpas yr astudiaeth, a beth nad yw o fewn cwmpas yr astudiaeth
- Mapiau a chynlluniau

Yr achos dros newid

- Y sefyllfa bresennol gan gynnwys y cyd-destun ehangach – beth yw'r problemau a'r cyfleoedd, a sut y gwnaethant godi?
- Sefyllfa 'gwneud dim' debygol os na fydd camau'n cael eu cymryd
- Y ffactorau allweddol y tu ôl i'r sefyllfa bresennol
- Tueddiadau hirdymor
- Sut y gellir rhwystro'r problemau rhag gwaethygu neu ddigwydd yn y lle cyntaf?
- Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol a sut y byddant yn cael eu cynnwys?
- Beth yw'r strategaeth i ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y newidiadau arfaethedig?
- Pa feysydd polisi eraill y dylid eu hystyried (integreiddio) a chyda phwy y byddwch yn gweithio i fwyafu buddion?

Amcanion

- Amcanion cyffredinol cenedlaethol gan gynnwys yr amcanion llesiant
- Cyd-fynd ag amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill
- Amcanion trafndiaeth cenedlaethol yn seiliedig ar Strategaeth Trafndiaeth Cymru
- Amcanion lleol (e.e. llesiant)
- Amcanion CAMPUS ar gyfer y broblem hon
- Mesurau llwyddiant – sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur?

Rhestr hir o opsiynau: (yng Ngham Un)

- Sut y lluniwyd y rhestr hir
- Rhestr o opsiynau, yn dangos tystiolaeth yr ystyriwyd pob math o deithio ac atebion nad ydynt yn ymwneud â'r sector trafndiaeth
- Ar gyfer pob opsiwn:

- Disgrifiad
- Sut y mae'n mynd i'r afael â'r broblem
- I ba raddau y mae'n diwallu'r amcanion, gan gynnwys cyfrannu at amcanion llesiant lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol
- Materion eraill sy'n berthnasol (risgiau allweddol, effeithiau andwyol, cyfyngiadau a chyd-ddibyniaethau)

Rhestr fer o opsiynau: (o Gam Dau ymlaen)

- Sut y lluniwyd y rhestr fer
- Ar gyfer pob opsiwn:
 - Disgrifiad
 - Sut y mae'n mynd i'r afael â'r broblem
 - I ba raddau y mae'n diwallu'r amcanion, gan gynnwys cyfrannu at amcanion llesiant lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol
 - Materion eraill sy'n berthnasol (risgiau allweddol, effeithiau andwyol, cyfyngiadau a chyd-ddibyniaethau)

ACHOS TRAFNIDIAETH

Beth yw'r effaith?

Mae'r achos trafndiaeth yn nodi effeithiau disgwylidig y prosiect, sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at y nodau llesiant, a ph'un a fydd prosiect yn darparu gwerth am arian cyhoeddus. Mae hyn yn cyfateb i'r 'achos economaidd' (arfarniad o opsiynau) yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy feddwl am gostau a buddion cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd pob opsiwn.

Mae'r achos trafndiaeth yn asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran:

- beth fydd yr effeithiau
- graddfa'r effeithiau hynny
- ble a phryd byddant yn codi
- pwy/beth fydd yn eu profi

Dylai arfarniad WeITAG ystyried yr amrediad eang o effeithiau cyfredol a achosir gan y broblem dan sylw, yr effeithiau tebygol yn y dyfodol os na chymerir camau, y gwahaniaeth y bydd yr ymyriad arfaethedig yn ei wneud yn awr ac yn y tymor hir, ac unrhyw effeithiau eraill a fyddai'n codi o ganlyniad i weithredu'r ateb arfaethedig.

Dylid cyflwyno arwyddocâd a graddfa effeithiau pob opsiwn gan ddefnyddio graddfa saith pwynt, fel a ganlyn:

- Buddion mawr (++++)
- Buddion canolradd (++)
- Ychydig o fuddion (+)
- Niwtral (0)

- Ychydig o anfanteision (-)
- Anfanteision canolradd (--)
- Anfanteision mawr (---)

Os na chafodd effaith ei dadansoddi hyd yn hyn, dylid nodi hyn yn glir gan ddefnyddio NYA (heb ei dadansoddi hyd yn hyn). Mae'n rhaid gofalu y cyflwynir yr holl effeithiau a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad ynghylch pa opsiynau fydd yn parhau i'r cam nesaf.

Dylai archwiliad o'r effeithiau posibl amrywio'n eang er mwyn casglu cymaint o effeithiau â phosibl. Dylid cyflwyno'r effeithiau mewn Tabl Crynhoi'r Arfarniad. Yn unol â 'Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015', dylai'r asesiadau effaith (statudol ac anstatudol) gael eu hintegreiddio ag ystyriaeth o gyfraniad pob opsiwn at y nodau llesiant. Rydym yn disgwyl yr opsiynau hynny sy'n cael ei cymeryd ymlaen i fod y rhai sydd yn rhoi'r cyfraniad mwyaf i bob pedair agwedd lles.

Yng Ngham Un, mae'r asesiadau o'r effeithiau'n debygol o fod yn ansoddol gan mwyaf, a hynny gan ddangos nifer y bobl yr effeithir arnynt. Bydd llawer o'r dystiolaeth a ddefnyddir yn deillio o ffynonellau data cyfredol a gwerthusiadau o brosiectau blaenorol perthnasol mewn mannau eraill. Efallai y bydd angen casglu ychydig o ddata sylfaenol megis cyfrifiadau o ran nifer y teithwyr, cerddwyr, beicwyr neu draffig, ac arolygon o'r amodau ar y rhwydwaith trafnidiaeth megis hyd tagfeydd a lefelau gorlenwi. Pan fo'r prosiect wedi ei gynllunio i ymdrin â phroblem sy'n llai amlwg, efallai y bydd angen cynnal arolygon ansoddol archwiliol i ddatgelu graddau'r broblem ac awgrymu atebion posibl.

Yn ystod Cam Dau, dylai lefel meintioli'r effeithiau gynyddu ar gyfer yr effeithiau hynny sy'n berthnasol i'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud. Erbyn Cam Tri, dylai'r holl effeithiau perthnasol fod wedi'u meintioli, ochr yn ochr ag asesiadau ansoddol, os oes dulliau priodol o wneud hynny ar gael. Yn ystod y camau hyn, efallai y bydd yr asesiadau manylach o effeithiau'n galw am gasglu mwy o dystiolaeth. Gellir casglu'r dystiolaeth hon o arolygon meintiol neu ansoddol ychwanegol neu o allbwn model o'r system drafnidiaeth. Ym mhob achos, dylid nodi'r modd arfaethedig o ddarparu'r dystiolaeth ychwanegol hon yn achos rheolaeth adroddiad y cam blaenorol.

Mae'r dewis o strwythur model a'r dulliau a'r data a ddefnyddir i ddatblygu'r model hwnnw'n dibynnu ar natur y broblem dan sylw, graddfa'r buddsoddiad, a'r math o effeithiau disgwylidig. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cyhoeddi cyngor technegol manwl ar foddelu trafnidiaeth yn ei dogfennau WebTAG, a allai fod o gymorth.

Nod yr achos trafnidiaeth ym mhob cam yw cyflwyno crynodeb i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau o bob effaith bosibl, gan nodi natur yr effaith, ei difrifoldeb, a pha grwpiau o bobl neu leoliadau fydd yn cael eu heffeithio. Gallai'r effeithiau fod yn

fuddiol i rai grwpiau ond yn andwyol i grwpiau eraill, a dylai adroddiadau camau WeITAG amlinellu hyn yn eglur. Dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys gwrthdaro posibl. Mae angen i lefel y dadansoddi fod yn ddigonol er mwyn darparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer y penderfyniadau y mae angen eu gwneud ar ddiwedd pob cam.

Ni ddylai'r gwaith arfarnu bennu pwysoliadau i'r effeithiau, ond gallai flaenoriaethu'r amcanion CAMPUS er mwyn gwahaniaethu rhwng opsiynau.

GWERTH AM ARIAN

Mae'r gymhareb costau a buddion yn llywio'r asesiad gwerth am arian, sy'n un o nifer o feini prawf a ddefnyddir i hysbysu'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r ymyriad arfaethedig. Dylai'r gymhareb costau a buddion graidd gynnwys yr un buddion ariannol â'r rhai sydd wedi eu cynnwys ym meddalwedd TUBA yr Adran Drafnidiaeth. Gellir cynnwys eitemau ychwanegol, megis effeithiau economaidd ehangach, mewn ail ffigur a adwaenir fel y gymhareb costau a buddion ehangach. Dylid darparu manylion llawn y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r dystiolaeth a ddefnyddir yn yr achos strategol a'r achos trafnidiaeth yn Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG.

Dylai'r asesiad gwerth am arian ystyried costau a buddion anariannol opsiynau, gan gynnwys eu buddion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.

DULLIAU AR GYFER ASESU EFFEITHIAU

Nid yw WeITAG yn rhagnodi pa ddulliau y dylid eu defnyddio i asesu effeithiau gan fod hwn yn faes sy'n newid yn barhaus, ond dylai'r dulliau a ddefnyddir fod yn briodol ar gyfer deall graddau a difrifoldeb pob effaith. Dylai'r dulliau y cynigir eu defnyddio ar gyfer asesu effeithiau yn ystod y cam nesaf gael eu hamlinellu yn yr adroddiad ar gyfer y cam blaenorol, a dylai'r grŵp adolygu gytuno arnynt.

Yn gyffredinol, dylai'r dulliau a ddefnyddir i asesu effeithiau mesuradwy ddilyn y cyngor a amlinellir gan yr Adran Drafnidiaeth yn y Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth (WebTAG), gan gynnwys defnyddio'r Dull Asesu Effaith Economaidd ar Iechyd (HEAT) i gyfrifo buddion cerdded a beicio'n fwy. Nid yw hyn yn eich rhwystro rhag gwneud defnydd ychwanegol o dechnegau arfarnu arloesol pan fydd y rhain yn gallu rhoi cipolwg pellach ar effeithiau tebygol cynllun neu gefnogi'r naratif o ran sut y bydd yr ymyriad arfaethedig yn arwain at y canlyniadau disgwylidig.

Dylai'r ffynonellau tystiolaeth a ddarperir i ragweld effeithiau yn y dyfodol ddefnyddio dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol. Yn ystod Cam Un, bydd llawer o'r gwaith arfarnu'n seiliedig ar ddata eilaidd (ffynonellau data sydd eisoes ar gael), ond, wrth i'r arfarniad barhau, bydd angen data newydd, sylfaenol.

Ar gyfer rhai cynlluniau, bydd modelau trafnidiaeth, amgylcheddol ac ariannol yn cael eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth o effeithiau yn y dyfodol o beidio ag ymyrryd yn y

system drafnidiaeth a chanlyniadau'r ymyriadau eraill sydd dan ystyriaeth. Dylai pob model o'r fath gael ei ddogfennu'n llawn yn Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG, a dylid rhoi copiâu yn y storfa ddata.

Efallai y bydd tystiolaeth o astudiaethau achos o fannau eraill o'r DU a thu hwnt yn ddefnyddiol ar gyfer y gwaith arfarnu, ond dylid egluro'r gwahaniaethau perthnasol yng nghyd-destun yr astudiaeth achos a'r defnydd arfaethedig yng Nghymru.

Rhestr wirio'r achos trafndiaeth

Cyflwyniad

- Amlinellu'r dull
- Rhestru'r opsiynau a brofwyd a rhagdybiaethau a wnaed

Asesiad effaith

- Rhestr o'r effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd a ystyriwyd
- Crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau, gan gynnwys pum ffordd o weithio
- Pwy/beth yr effeithir arnynt, a sut?
- Crynodeb o'r dystiolaeth ategol ansoddol/feintiol allweddol
- Ystyried sut y mae pob opsiwn yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant
- Ystyried sut y gellir datrys unrhyw wrthdaro posibl
- Costau: ystod debygol o werthoedd y costau oes gyfan ac amcangyfrif canolog. Nodi costau i'r sector cyhoeddus. Amlinellu lwfans risg a gogwydd optimistiaeth.
- Buddion: gan gynnwys buddion cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd: ystod debygol yng ngwerth buddion oes gyfan ac amcangyfrif canolog; darparu tystiolaeth ategol ansoddol/feintiol. Nodi risgiau allweddol sy'n arwain at newidiadau o ran gwireddu buddion ac ymddangosiad effeithiau andwyol.

Asesiad gwerth am arian

- Cymhareb costau a buddion ar gyfer pob opsiwn
- Cymhareb cost a buddion gywiriedig
- Band gwerth am arian – gwael/isel/canolig/uchel/uchel iawn

A yw'n fforddiadwy?

Mae'r achos ariannol yn dweud wrthy ch a yw opsiwn yn fforddiadwy yn y lle cyntaf ac yn dangos dichonoldeb ariannol hirdymor cynllun. Mae'n trafod gofynion cyfalaf a referniw ar hyd oes y prosiect a goblygiadau'r rhain ar gyfer y fantolen a chyfrifon incwm a gwariant sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Mae'n rhaid nodi'n eglur unrhyw fwlch o ran cyllid. Dylid nodi ffynonellau posibl o gyllid allanol i fodloni diffygion mewn cyfalaf a referniw, a dylid datgan gofynion a meini prawf allweddol y cyrff ariannu hynny.

Dylid nodi risgiau sy'n effeithio ar lefel ac amseriad incwm o drydydd partion, megis incwm ffioedd gan ddefnyddwyr a, phan fydd y ffrydiau referniw hyn yn dod o'r sector preifat, dylid creu cysylltiadau gyda'r manylion a ddarperir yn yr achos masnachol.

Rhestr wirio'r achos ariannol

Dylai'r ystyriaethau canlynol gael eu hamlinellu yng Ngham Un, eu cwblhau yng Ngham Dau, a'u diweddarau a'u dilysu yng Ngham Tri:

Costau oes y prosiect

- Pryd y byddant yn codi?
- Pris ar yr adeg y byddant yn codi, gan gynnwys lwfans priodol ar gyfer chwyddiant
- Pwy fydd yn talu pa gostau a phryd, gan gynnwys rhwymedigaethau cynnal a chadw?
- Manylion y lwfansau risg a'r cynlluniau wrth gefn
- Cost oes gyfan, os yw ar gael, gan gynnwys costau aildefnyddio, gwaredu ar ddiwedd oes ac ati
- Hefyd effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol ac allanoldebau

Ffynhonnell cyllid

- O ble y daw'r arian pan fo'i angen dros oes y prosiect?
- Pwy sy'n atebol dros ad-dalu cyllid a fenthycwyd?

Goblygiadau cyfrifyddu

- Ar fantolen pwy y bydd y costau a'r referniwiau'n ymddangos?

ACHOS MASNACHOL

A yw'n hyfyw?

Mae'r achos masnachol yn dweud wrthy ch a fydd cynllun yn fasnachol hyfyw, a ph'un a fydd yn bosibl caffael y cynllun ac yna parhau ag ef yn y dyfodol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar lefel a math y cyfranogiad gan y sector preifat ym mhob opsiwn. Mae hyn yn cynnwys eitemau sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r opsiwn a'i ddichonoldeb parhaus. Er enghraifft, a fydd angen parhaus am gymorth refeniw, a fydd unrhyw daliadau'n cael eu codi ar y rhai sy'n defnyddio neu'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r cynllun, a phennu risg ar gyfer darparu'r prosiect ac wrth ei weithredu'n barhaus.

Mae'r achos masnachol yn manylu sut, ac i ba raddau, y gellir cynnwys y sector preifat wrth gaffael a chyflawni pob opsiwn yn barhaus. Mae'r achos masnachol hefyd yn cynnwys unrhyw faterion cysylltiedig â threfniadau cytundebol allweddol a'r posibilrwydd o drosglwyddo staff o dan gytundebau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981.

Os oes angen arian a chyfraniadau gan drydydd parti i godi'r cyllid ar gyfer y cynllun neu i ganiatáu iddo weithredu'n barhaus, yna mae'n rhaid i'r achos masnachol amlinellu'r trefniadau masnachol ar gyfer darparu'r cyllid hwn, y gost debygol, ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar y tebygolrwydd o gael y cyllid hwn.

Rhestr wirio'r achos masnachol

Dylai'r ystyriaethau canlynol gael eu hamlinellu yng Ngham Un, eu cwblhau yng Ngham Dau, a'u diweddarau a'u dilysu yng Ngham Tri:

- Manylion yr allbynnau gofynnol
- Opsiynau caffael – gan hyrwyddo opsiynau lleol lle bo'n bosibl
- Cyflenwyr: y sector preifat a/neu gyhoeddus; nifer a phrofiad y cyflenwyr tebygol
- Dulliau talu, e.e. yn gysylltiedig â pherfformiad ac argaeledd
- Manylion unrhyw incwm a gynhyrchwyd a lefelau'r taliadau
- Pennu a throsglwyddo risg
- Hyd contract
- Materion adnoddau dynol megis yr effaith ar staff presennol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981

ACHOS RHEOLAETH

A yw'n gyflawnadwy?

Mae'r achos rheolaeth yn dweud wrthyhych a yw opsiwn yn gyflawnadwy. Mae'r achos hwn yn cynnwys y trefniadau cyflenwi ar gyfer y prosiect ac yna'r dull o reoli'r prosiect ar hyd ei oes. Mae'n cynnwys y trefniadau ar gyfer caffael, adeiladu a gweithredu'r ymyriad yn barhaus, manylion y trefniadau monitro, a manylion cyflawni'r cynllun gwerthuso. Dylai'r achos rheolaeth ymgorffori'r pum ffordd o weithio.

Dylid cynnwys costau'r gwaith monitro a gwerthuso yn yr achos trafndiaeth ac ariannol, a dylid disgrifio yn yr achos rheolaeth y trefniadau ar gyfer darparu'r cyllid ar gyfer y tasgau hyn, pan fo angen, a manylion sut caiff y gwasanaethau hyn eu cyflawni.

Yn ystod Cam Un, dylai'r achos rheolaeth amlinellu pa sefydliad a pha grwpiau fydd yn rhan o'r grŵp adolygu sy'n cwrdd ar ddiwedd pob cam WeITAG. Bydd y grŵp hwn yn ystyried y cynnwys sydd yn adroddiad y cam ac yn penderfynu ar y camau gweithredu i'w cymryd ar ddiwedd pob cam.

Mae'r grŵp adolygu hefyd yn ystyried y dulliau i'w defnyddio wrth asesu effeithiau'r opsiwn/opsiynau sydd i'w trosglwyddo i'r cam nesaf. Mae'r argymhellion ar dystiolaeth a gofynion modelu ychwanegol wedi'u nodi yn yr achos rheolaeth. Mae'n bosibl y bydd y grŵp adolygu'n dymuno defnyddio cymorth technegol arbenigol wrth ddewis dulliau asesu, yn enwedig ar gyfer cynlluniau mawr neu gynlluniau sy'n effeithio'n sylweddol ar grwpiau o bobl neu leoliadau penodol.

Rhestr wirio'r achos rheolaeth

- Cynllun prosiect gyda cherrig milltir, gan gynnwys gwiriadau cymeradwyo a sicrwydd allweddol
- A yw'r gwaith cyflenwi'n seiliedig ar ddulliau profedig? Beth sy'n arloesol?
- A oes unrhyw ofynion cyfreithiol, e.e. asesiadau amgylcheddol, asesiadau o'r effaith ar iechyd, caniatadau cynllunio, pwerau cyfreithiol?
- Cysylltiadau at asesiadau/arfarniadau llesiant
- Trefniadau llywodraethu, swyddogaethau a strwythur sefydliadol yn ystod y camau dilynol
- Trefniadau adrodd am y prosiect
- Cynllun rheoli rhanddeiliaid a chyfathrebu
- Cynllun gwireddu buddion
- Cynllun monitro a gwerthuso, gan gynnwys yr angen am unrhyw astudiaethau cyn gweithredu
- Strategaeth rheoli risg
- Cynllun wrth gefn

ADRODDIADAU WELTAG

CYFLWYNIAD

Mae tri math o adroddiad y dylid eu cynhyrchu mewn proses WeITAG:

- Adroddiadau camau
- Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG
- Cynllun monitro a gwerthuso

ADRODDIADAU CAMAU

Dylai adroddiadau'r camau fod yn grynodedb cryno o'r gwaith WeITAG. Dylent fod yn glir a hawdd eu darllen, a defnyddio iaith nad yw'n dechnegol, a mapiau a diagramau lle bo'n briodol. Dylai adroddiadau'r camau amlinellu prif ganfyddiadau'r dystiolaeth fanwl a gasglwyd trwy'r broses WeITAG, a dylent gyfeirio at leoliad y dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r datganiadau a wnaed.

Mae'r adroddiadau WeITAG yng Nghamau Un, Dau a Thri yn cyflwyno crynodeb o effeithiau disgwylidig yr ymyriadau arfaethedig, pwy neu beth fydd yn profi'r effeithiau hyn, a'r potensial i wireddu'r buddion cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a datrys gwrthdaro. Yng Nghamau Un a Dau, dylid nodi meysydd o wybodaeth anghyflawn yn eglur yn adroddiad y cam. Erbyn diwedd Cam Tri, dylai'r adroddiad gynnwys gwybodaeth gyflawn am yr holl effeithiau disgwylidig ar y lefel manylder sy'n briodol ar gyfer graddfa'r effaith dan sylw. Gall cynlluniau risg isel gyfuno adroddiadau Camau Un, Dau a Thri.

Dylai adroddiadau Camau Pedwar a Phump grynhoi'r dystiolaeth o'r effeithiau a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Dylai'r adroddiadau hyn gynnwys manylion y cyd-destun ehangach ynghylch y gweithrediad a effeithiodd ar y cynllun megis amodau tywydd wrth adeiladu, amodau ar ddulliau eraill o deithio, prisiau tocynnau teithio a phrisiau tanwydd.

Y rheswm dros gofnodi'r union effeithiau a ddigwyddodd yw gwerthuso'r cynllun a weithredwyd a darparu'r data y mae eu hangen er mwyn cymharu'r effeithiau a'r canlyniadau disgwylidig â'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Gallai diben yr ymarfer hwn arwain at addasu'r cynllun ond bydd hefyd yn darparu adborth ar gyfer pobl sy'n cynllunio ymyriadau yn y dyfodol. Yr adborth hwn sy'n gwneud WeITAG yn broses ddysgu.

Gallai'r adborth arwain at addasu/gwella cynllun yr ymyriadau yn y dyfodol i gefnogi newid cadarnhaol, a/neu newidiadau i'r dulliau a ddefnyddir i ddeall beth fydd effeithiau tebygol ymyriad.

CYFLWYNIAD

Mae'n hanfodol bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ymwybodol o amgylchiadau a chyd-destun ehangach y broblem sy'n destun arfarniad WelTAG. Bydd y wybodaeth hon yn trafod amrediad eang o feysydd pwnc, nid trafndiaeth yn unig, a dylai amlygu dibyniaethau allweddol ar ffactorau eraill.

Caiff y dystiolaeth, data a dadansoddiadau manwl sy'n sail i'r datganiadau a wnaed yn adroddiadau camau WelTAG eu cyflwyno mewn dogfen ar wahân a adwaenir fel Adroddiad Asesu Effeithiau WelTAG.

Mae Adroddiad Asesu Effeithiau WelTAG yn ddogfen fyw sy'n datblygu yn ystod pum cam WelTAG. Mae'n cynnwys y dadansoddiadau sy'n sail i bob cam ac mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa dechnegol. Mae'n cyflwyno tystiolaeth fanwl am effeithiau disgwylidig pob opsiwn sydd dan ystyriaeth ac mae'n sail i'r crynodebau o'r effeithiau hynny a gyflwynir yn nogfen camau WelTAG. Bydd lefel y manylder yn yr asesiad yn cynyddu trwy'r camau WelTAG a dylai'r adroddiad asesu effeithiau nodi'n glir unrhyw fylchau yn y dystiolaeth ac amlinellu'r cynlluniau ar gyfer llenwi'r bylchau hyn. Dylai hefyd integreiddio ag unrhyw asesiadau perthnasol eraill sydd wedi'u cwblhau ar gyfer y broblem neu'r lleoliad hwnnw.

Dylai'r adroddiad asesu effeithiau gynnwys manylion y dyfarniadau a wnaed a'r tybiaethau y tu ôl i'r asesiadau a ddarperir yn adroddiad y cam hwnnw. Dylai hefyd ddarparu datganiad clir o'r tybiaethau a wnaed a dadansoddiad o'r ansicrwydd ynghylch yr asesiadau.

Mae'r adroddiad asesu effeithiau'n cynnwys catalog o'r eitemau a roddwyd yn y storfa ddata ategol. Mae'r storfa ddata hon yn cynnwys copi o'r holl ddata a thystiolaeth arall a ddefnyddiwyd yn y gwaith arfarnu megis data cyfrifiad, arolygon a modelau dadansoddol. Mae manylion am fodelau trafndiaeth a modelau eraill yn aml yn datblygu dros amser, felly dylid rhoi copi o unrhyw fodelau yn storfa ddata'r prosiect fel yr oeddent ar ddiwedd pob cam, h.y. pan ysgrifennwyd adroddiad perthnasol y cam. Yn y modd hwn, maent yn dod yn gofnod o'r dystiolaeth ategol a oedd ar gael ar adeg gwneud y penderfyniadau ar ddiwedd pob cam.

Mae'r adroddiad asesu effeithiau'n datblygu'n gofnod parhaol o'r gwaith arfarnu ar yr ymyriad trafndiaeth arfaethedig. Mae'n cynnwys y dystiolaeth fanwl y tu ôl i'r wybodaeth gryno a ddarperir ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn adroddiadau'r camau. Dylid cadw cofnod o'r adroddiad asesu effeithiau ar ddiwedd pob cam, fel cofnod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniadau ym mhob cam.

PROSES SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cadw data digidol ar fformatau ffeil cyffredin megis CSV neu 'shapefiles' y gellir eu hagor gan ddefnyddio meddalwedd ffynhonnell agored, megis QGIS. Bydd hyn yn galluogi'r rheini sy'n gwneud gwaith yn ystod camau hwyrach y broses WeITAG, megis gwaith gwerthuso Cam 5, i allu ail-greu'r gwaith gwreiddiol a chyflawni'r gwaith gwerthuso gan ddefnyddio'r un fersiwn gyfredol o unrhyw feddalwedd a ddefnyddiwyd. Bydd hyn yn gymorth wrth gynhyrchu allbynnau y gellir eu cymharu, hyd yn oed pe bai'r feddalwedd wedi newid ers cynnal y gwaith cychwynol.

Mae'n rhaid cadw copi o'r holl dystiolaeth a ddefnyddir gan y rheini sy'n ysgrifennu unrhyw adroddiadau ar gamau WeITAG gan awduron yr adroddiadau hynny. Mae'n dderbyniol defnyddio data eilaidd a gwaith dadansoddi a gynhyrchwyd gan eraill, ond mae'n rhaid cyfeirio'n llawn at ffynhonnell wreiddiol y dystiolaeth hon hefyd yn yr adroddiad asesu effeithiau a, lle bo'n bosibl, rhoi copi o'r deunydd a ddarparwyd yn y storfa ddata.

Dylid darparu manylion gwiriadau sicrwydd ansawdd a gwiriadau cadarnhau a dilysu unrhyw fodelau a ddefnyddiwyd i ddarparu tystiolaeth ar gyfer arfarniad WeITAG. Mae hyn yn cynnwys modelau a luniwyd gan ddefnyddio taenlenni yn ogystal â'r rheini a ddatblygwyd â meddalwedd arbenigol. Dylai'r gwiriadau sicrhau bod y model nid yn unig yn cael ei weithredu heb gamgymeriadau ond hefyd bod y ffurf gywir o ddadansoddi wedi ei defnyddio.

Cyfrifoldeb y bobl hynny sy'n defnyddio unrhyw wefannau nad ydynt yn rhai Llywodraeth Cymru yw gwirio ffynhonnell y data a ddarperir ar y gwefannau hyn a chadw copïau â chyfeiriad llawn ar gyfer y data sy'n cael ei lawrlwytho ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol.

Bydd wastad ansicrwydd ynghylch gwaith dadansoddi. Dylid nodi'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd a sut y gallai'r rhain effeithio ar y gwaith dadansoddi ac unrhyw argymhellion yn adroddiadau'r camau. Bydd yr adroddiad asesu effeithiau'n cynnwys manylion pellach yr ansicrwydd hwn, a bydd hefyd yn cynnwys y gwaith a wnaed i ddeall sut y byddai'r rhain yn effeithio ar unrhyw argymhellion, megis canlyniadau profion sensitifrwydd ar allbynnau allweddol a pharmedrau modelau.

Efallai y bydd dadansoddi senarios yn ddefnyddiol i ystyried pa mor gadarn yw'r dadansoddiad i newidiadau yng nghyd-destun y broblem dan sylw, y tueddiadau cyfredol o ran arferion teithio, a'r mewnbynnau allweddol i unrhyw waith modelu trafndiaeth a gyflawnwyd, megis prisiau tanwydd, lefelau incwm a rhagamcanion poblogaeth.

EFFEITHIAU DISGWYLIEDIG

Mae'r adroddiadau WelTAG yng Nghramau Un, Dau a Thri yn cyflwyno crynodeb o effeithiau disgwylidig yr ymyriadau arfaethedig, pwy neu beth fydd yn profi'r effeithiau hyn, a'r potensial i wireddu'r buddion cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol.

Dylai Adroddiad Asesu Effeithiau WelTAG gynnwys manylion llawn y dystiolaeth, y data a'r dulliau a ddefnyddiwyd i gefnogi'r datganiadau a wneir yn adroddiadau'r camau. Bydd lefel y manylion yn yr asesiad yn cynyddu trwy gamau'r broses WelTAG a dylai Adroddiad Asesu Effeithiau WelTAG nodi'n eglur unrhyw fylchau yn y dystiolaeth ac amlinellu'r cynlluniau ar gyfer llenwi'r bylchau hyn.

Erbyn diwedd Cam Tri, dylai fod gwybodaeth gyflawn am yr holl effeithiau disgwylidig ar y lefel manylder sy'n briodol ar gyfer graddfa'r effaith dan sylw. Yng Nghramau Un a Dau, dylid nodi meysydd o wybodaeth anghyflawn yn eglur yn adroddiad y cam. Dylai Adroddiad Asesu Effeithiau WelTAG gynnwys manylion y dyfarniadau a wnaed a'r tybiaethau y tu ôl i'r asesiadau a ddarperir yn adroddiad y cam hwnnw. Dylai hefyd ddarparu datganiad clir o'r tybiaethau a wnaed a dadansoddiad o'r ansicrwydd ynghylch yr asesiadau.

EFFEITHIAU A WIREDDWYD

Dylai'r adroddiadau ar ddiwedd Camau Pedwar a Phump WelTAG gynnwys tystiolaeth o'r effeithiau a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Dylai hyn gynnwys manylion y cyd-destun ehangach ynghylch y gweithrediad a effeithiodd ar y cynllun megis amodau tywydd wrth adeiladu, amodau ar ddulliau eraill o deithio, prisiau tocynnau teithio a phrisiau tanwydd.

Y rheswm dros gofnodi'r union effeithiau a ddigwyddodd yw gwerthuso'r cynllun a weithredwyd a darparu'r data y mae ei angen er mwyn cymharu'r effeithiau a'r canlyniadau disgwylidig â'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd. Gallai diben yr ymarfer hwn arwain at addasu'r cynllun ond bydd hefyd yn darparu adborth ar gyfer pobl sy'n cynllunio ymyriadau yn y dyfodol. Yr adborth hwn sy'n gwneud WelTAG yn broses ddysgu.

Gallai'r adborth arwain at addasu cynllun yr ymyriadau yn y dyfodol, a/neu newidiadau i'r dulliau a ddefnyddir i ddeall beth fydd effeithiau tebygol ymyriad.

STORFA DDATA

Mae'r storfa ddata'n cadw cofnod o'r gwaith arfarnu a gynhaliwyd. Dylai gynnwys adolygiad o'r dystiolaeth a gymerwyd o ffynonellau eraill ac a ddefnyddiwyd yn y broses arfarnu, a chopïau o unrhyw dystiolaeth newydd a gynhyrchwyd. Gall y dystiolaeth newydd hon fod yn ansoddol, megis canlyniadau arolygon a grwpiau

ffocws, neu'n feintiol, megis dadansoddiad o ddata cleientiaid a phrisiau, ac allbynnau modelau trafndiaeth, ariannol ac amgylcheddol neu fodolau eraill.

Dylai'r data gael ei gatalogio a'i ddogfennu'n eglur. Lle bo'n bosibl, dylai'r data gael ei storio mewn fformatau ffeil safonol megis ffeiliau testun neu CSV, yn hytrach na fformatau ffeil a ddefnyddir gan feddalwedd fasnachol. Dylid darparu nodiadau llawn ar y feddalwedd a ddefnyddiwyd i gynhyrchu unrhyw fodolau a dylid cyflwyno digon o wybodaeth a data er mwyn i bobl eraill allu atgynhyrchu'r modelau a'u hallbynnau yn y dyfodol.

Dylai Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG gynnwys catalog o'r data, modelau a ffynonellau tystiolaeth eraill a ddefnyddiwyd yn yr arfarniad ac a gedwir yn y storfa ddata. Dylai gofnodi pa eitemau sydd ar gael yn gyhoeddus a'r rhai sy'n gyfyngedig oherwydd materion megis cyfrinachedd personol neu fasnachol.

Dylai'r storfa ddata fod yn gyflawn ym mhob cam o'r arfarniad trafndiaeth. Dylid ei darparu ar ffurf electronig ar gyfer hyrwyddwr y prosiect, a dylid cytuno arni cyn symud i'r cam nesaf.

Dylai hyrwyddwr y prosiect gadw'r storfa ddata mewn lleoliad a gofnodir yn briodol tan o leiaf y cwblheir Cam Pump. O ystyried maint posibl y storfa ddata, efallai mai'r dull mwyaf priodol o storio bydd dyfais cof arunigol.

CYNLLUN MONITRO A GWERTHUSO

Dylai cynllun monitro a gwerthuso manwl gael ei lunio yng Ngham Tri. Dylai'r cynllun hwn ddisgrifio pa dystiolaeth fydd yn cael ei defnyddio yn adroddiad gwerthuso'r prosiect, a sut y caiff ei chasglu. Mae tystiolaeth yn ofynnol ar gyfer yr union allbynnau a ddefnyddiwyd wrth weithredu'r cynllun ac yn ystod y broses o'i weithredu'n barhaus, yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd, yr effeithiau a gafwyd, i ba raddau yr oedd yr ymyriad yn bodloni'r amcanion, a sut y'u cyflawnwyd.

Dylai'r cynllun monitro a gwerthuso amlinellu'r amserlen a'r adnoddau gofynnol ar gyfer cynhyrchu'r adroddiadau gwerthuso yn ystod Camau Pedwar a Phump.

GWYBODAETH AM Y CYD-DESTUN

Dylid paratoi gwybodaeth am gyd-destun yr ymyriad gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael, megis newidiadau ym mhrisiau tanwydd, twf cyffredinol mewn lefelau traffig, a'r defnydd o drafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal ehangach. Argymhellir cadw dyddiadur neu gofnod o'r prosiect yn ystod y gwaith o gyflawni a gweithredu'r ymyriad. Gellir defnyddio hwn i gofnodi digwyddiadau megis y tywydd, datblygiadau newydd yn agor, a newidiadau ym mhrisiau tanwydd, prisiau tocynnau trafndiaeth

gyhoeddus a/neu brisiau meysydd parcio y gellid disgwyl iddynt effeithio ar wireddu'r effeithiau a lefel yr effeithiau a achosir gan yr ymyriad.

TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Dylai'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyflwyno'r cyd-destun, mewnbynnau, allbynnau, canlyniadau bwriadedig a'r union effeithiau fod yn seiliedig, cyn belled â phosibl, ar ddata sydd ar gael ar y pryd. Dylai'r cynllun monitro a gwerthuso ddisgrifio sut y bydd data perthnasol a gasglwyd eisoes yn cael ei ddefnyddio, a dylai'r data hynny fod ar gael wrth i'r adroddiad gwerthuso gael ei ysgrifennu.

TYSTIOLAETH BWRPASOL

Bydd y cynllun monitro'n nodi manylion pan fydd data'n cael ei gasglu'n benodol er mwyn gwerthuso'r ymyriad arfaethedig. Efallai y bydd hyn yn cynnwys arolygon megis grwpiau ffocws gyda defnyddwyr yr ymyriad a phobl nad ydynt yn ei ddefnyddio, ac arolygon ansoddol. Pan fo swm sylweddol o arian wedi'i gynnig ar gyfer arolygon, naill ai mewn termau absoliwt neu fel cyfran o gyfanswm cost yr ymyriad, yna dylid cyflwyno disgrifiad manwl o'r arolwg arfaethedig a chyfiawnhad o'r angen am yr arolygon yn y cynllun monitro.

Mae'r lefel y caiff unrhyw ran o'r system drafnidiaeth ei defnyddio yn agored i newidiadau dyddiol, a dylid darparu tystiolaeth ar raddfa'r newid dyddiol yn yr ardal yn gyffredinol. Gellir casglu'r wybodaeth hon o beiriannau cyfrif traffig awtomatig, data gan weithredwyr trafndiaeth gyhoeddus, a pheiriannau cyfrif beiciau awtomatig.

Dylai'r adroddiadau WeITAG a gaiff eu llunio yng Nghamau Pedwar a Phump gyflwyno'r dystiolaeth ar effeithiau'r cynllun. Dylid cofnodi effeithiau buddiol ac andwyol fel ei gilydd. Hefyd, dylai'r adroddiad gynnwys unrhyw effeithiau a ddigwyddodd ond na chawsant eu rhagweld yn ystod camau cynnar yr arfarniad ond a welwyd yn ystod y gwaith o weithredu'r cynllun ac ar ôl hynny.

GRŴP ADOLYGU

Dylid penodi grŵp adolygu ar gyfer pob arfarniad WeITAG. Diben y grŵp adolygu yw ystyried cynnwys adroddiadau'r camau WeITAG, asesu pob un o'r opsiynau a gyflwynir, a phenderfynu ar y camau i'w cymryd ar ddiwedd y cam WeITAG hwnnw. Mae Adroddiad Asesu Effeithiau WeITAG yn cynnwys y gwaith dadansoddi manylach sy'n sail i'r deunydd a gyflwynir yn yr adroddiadau ar y camau. Dylid trefnu bod hyn ar gael hefyd i'r grŵp adolygu.

Dylid pennu maint a chyfansoddiad y grŵp adolygu yn yr achos rheolaeth yn adroddiad Cam Un, a dylai'r grŵp geisio cynnwys unigolion o amrediad o gefndiroedd ac arbenigeddau, gan gynnwys ar draws y pedair agwedd ar lesiant (cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd). Mewn llawer o sefydliadau, bydd yr un grŵp adolygu'n ystyried yr holl arfarniadau WeITAG a gynhrychir. Dros amser, bydd y grŵp hwn yn dysgu o brofiad arfarniadau blaenorol. Dylid cynnal grŵp adolygu ar gyfer cynlluniau risg isel hyd yn oed gan fod hyn yn rhoi cyfle i gynnal adolygiad o'r arfarniad gan gymheiriaid.

Yn dibynnu ar gwmpas yr ymyriad dan sylw, argymhellir penodi adolygydd annibynnol ar gyfer y prosiect. Dylai'r rôl gael ei chyflawni gan unigolyn sydd â phrofiad neu wybodaeth am y materion ond nad yw'n rhan o dîm y rhaglen. Rôl yr unigolyn bydd darparu adolygiad diduedd ac annibynnol o dystiolaeth a datblygiad yr achos. Dylai'r holl brosiectau risg uchel a chanolig gynnwys aelod o'r panel adolygu sy'n meddu ar gryn arbenigedd o deithio llesol.

Mae'r tabl canlynol yn ganllaw ynghylch y math o asesiad a grŵp adolygu ar gyfer prosiectau o wahanol raddfeydd:

Risg y prosiect	Nodweddion y prosiect	Math o asesiad	Grŵp adolygu
Uchel	Mawr, newydd sbon, cymhleth, ag effaith sylweddol, sensitif, adnoddau sylweddol yn angenrheidiol	Adolygiad Gateway neu gyfwerth	Rheolwr prosiect, uwch-swyddog cyfrifol / bwrdd y prosiect, ymarferwyr annibynnol profiadol o amrediad o gefndiroedd
Canolig	Dull a brofwyd eisoes, lefel gymedrol o effaith, rhywfaint o sensitifrwydd, rhywfaint o ymrwymiad adnoddol	Adolygiad gan gymheiriaid	Rheolwr prosiect, uwch-swyddog cyfrifol / bwrdd y prosiect
Isel	Cyffredin, wedi'i brofi'n dda, profiadol, yn gofyn am ychydig o adnoddau, effaith isel, ffiniau prosiect clir	Hunanasesu	Rheolwr prosiect, uwch-swyddog cyfrifol

Yr Adran Drafnidiaeth, Transport Analysis Guidance (WebTAG)

Yr Adran Drafnidiaeth (2013), The Transport Business Case

Trysorlys ei Mawrhydi (2003), Llyfr Gwyrdd: Arfarnu a Gwerthuso mewn Llywodraeth Ganolog

Trysorlys ei Mawrhydi (2015), Public Sector Business Cases, Using the Five Case Model – Llyfr Gwyrdd: Canllawiau atodol ar gyflenwi gwerth cyhoeddus o gynigion gwario

Tavistock Institute (2010), Logic Mapping: Hints and Tips for Better Transport Evaluations

Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion

